Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Myddelton College

Lôn Peakes
Dinbych
LL16 3EN

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Myddelton College

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Myddelton College |
| Statws y perchennog | IQ Education Limited, cwmni preifat cyfyngedig |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Ysgol bob oed annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 281 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 206 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/06/2025 |

Cyd-destun yr ysgol:

Mae Myddleton College yn ysgol breswyl a dydd gydaddysgol annibynnol ar gyfer disgyblion rhwng 4 ac 18 oed, sydd wedi'i lleoli yn Ninbych, Gogledd Cymru. Sefydlwyd yr ysgol ym mis Medi 2016 ac fe'i gweinyddir gan IQ Education Limited, sef cwmni sydd ag ysgol arall yn Lloegr a chysylltiadau â sawl ysgol yn Tsieina.

Mae 281 o ddisgyblion yn yr ysgol, ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys 55 o ddisgyblion yn yr adran gynradd a 226 yn yr adran hŷn, gan gynnwys 65 yn y chweched dosbarth. Ar hyn o bryd, mae tua 20% o ddisgyblion yr ysgol yn ddisgyblion preswyl sy'n dod o nifer o wahanol genhedloedd.

Mae tua 20% o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Nid oes gan yr ysgol nod i wneud disgyblion yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond mae'n cynnig cyfleoedd iddynt astudio Cymraeg ail iaith.

Mae'r ysgol yn cydnabod bod angen cymorth dysgu unigol ar ryw 20% o ddisgyblion. Mae hyn yn bennaf i gynorthwyo disgyblion sydd â dyslecsia ac ystod o anawsterau dysgu cymedrol eraill, fel cyflwr y sbectrwm awtistig (CSA). Mae'r ysgol yn gwneud

addasiadau rhesymol i gynorthwyo ychydig iawn o ddisgyblion sydd â namau meddygol a/neu gorfforol.

Ni chaiff disgyblion eu dewis yn ôl eu gallu. ‘Pileri’r ysgol’ yw ysgolheictod, cymrodoriaeth a gwydnwch. Mae’r ysgol yn rhan o rwydwaith cenedlaethol o ysgolion sy’n cael eu cydnabod am eu defnydd o dechnoleg addysgol. Gall pob un o’r disgyblion ddefnyddio’u cyfrifiadur llechen eu hunain i gefnogi eu dysgu.

Ymunodd y pennaeth presennol â’r ysgol ar fyr rybudd ym mis Medi 2024.

## Crynodeb

Mae Myddelton College yn meithrin diwylliant anogol a chynhwysol y mae disgyblion yn datblygu ymdeimlad o berthyn a balchder ynddo yn gyflym. Mae disgyblion a theuluoedd yn gwerthfawrogi ymdeimlad cryf y coleg o gymuned, lle mae unigolion yn cael eu hadnabod, eu parchu a'u cefnogi'n dda. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol trwy fentrau fel yr ystafell les a'r 'ardd gudd', ac fe gaiff llais y disgybl ei hyrwyddo trwy rolau arweinyddiaeth etholedig. Mae cynghorau ysgol a lles wedi chwarae rôl arwyddocaol mewn gyrru gwelliannau, yn arbennig mewn darpariaeth les. Mae penaethiaid yr ysgol ac arweinwyr disgyblion yn mynegi ymdeimlad cryf o ddiben moesol, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am faterion cymdeithasol allweddol, ochr yn ochr â gwaith elusennol.

Ymunodd pennaeth newydd â'r ysgol ym mis Medi 2024 ac, ochr yn ochr ag uwch arweinwyr, mae'n meithrin diwylliant o ddidwylledd, gonestrwydd ac atebolrwydd. Mae hunanwerthusiadau arweinwyr yn fyfyriol a chywir, ac mae strwythur pwyllgor cynghori diwygiedig ar waith i ddarparu 'clust feirniadol' i arweinwyr yr ysgol. Dilynir pedwar amcan gwelliant strategol ag egni; er, mae angen miniogi'r modd y maent yn alinio ag anghenion mwyaf dybryd y disgyblion.

Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn cael ei gyfoethogi gan gyfleoedd allgyrsiol helaeth, yn enwedig rhaglen 'Dysgu trwy'r awyr agored' (LTTO). Trwy LTTO, mae disgyblion yn datblygu gwydnwch, hyder a medrau datrys problemau ymarferol, sy'n cefnogi eu datblygiad academaidd a phersonol.

Mae'r ysgol baratoadol yn amgylchedd dysgu bywiog lle mae athrawon medrus a chydweithredol yn cyflwyno cwricwlwm cynlluniedig, difyr a chyfoethog. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym mewn darllen, ysgrifennu, llafaredd ac annibyniaeth, a gefnogir gan reoli ymddygiad yn effeithiol, adborth unigoledig a pherthnasoedd proffesiynol cadarnhaol. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn bwrpasol a difyr, ac mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o hyder, brwdfrydedd ac annibyniaeth.

Mae gwybodaeth bwnc gadarn a dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau mewn arholiadau yn sail i addysgu yn yr ysgol hŷn. Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae gwersi'n cynnwys gweithgareddau amrywiol a difyr, holi effeithiol, ac adborth ystyrlon ar lafar sy'n cefnogi cynnydd. Mewn lleiafrif o wersi, mae'r addysgu'n rhy gyfarwyddol ac nid yw'n addasu i ymateb i ddysgu'r disgyblion, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion wneud cynnydd. Ar draws yr ysgol hŷn, mae perthnasoedd cadarnhaol yn sail i'r dysgu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn arddangos medrau llafaredd, llythrennedd digidol a chydweithio cryf, ac ar draws cyfnod allweddol 4 a chyfnod allweddol 5, yn benodol, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gwybodaeth a medrau cryf sy'n benodol i bwnc. Er bod data asesu yn cael ei

gasglu'n systematig a'i ddefnyddio i adrodd i rieni, mae'r defnydd o asesu ffurfiannol o ddydd i ddydd yn parhau i fod yn anghyson ar draws yr ysgol hŷn.

Mae'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Prif werthusiad

### Cysylltiadau Myddelton

Mae Myddelton College yn amgylchedd croesawgar, cynhwysol ac anogol lle mae disgyblion yn ffynnu'n emosiynol ac yn gymdeithasol. Pan fyddant yn ymuno â'r coleg, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn yn gyflym. Maent yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u hadnabod fel unigolion. Mae bron pob un o'r disgyblion a'u teuluoedd yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad cryf o gymuned. Mae disgyblion yn falch o fod yn rhan o'r coleg.

Mae gan arweinwyr ffocws cryf ar les disgyblion, ac yn grymuso disgyblion i gymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain. Ar draws y coleg, ceir awyrgylch tawel a lefelau uchel o barch ar y ddwy ochr.

Mae arweinwyr disgyblion, sy'n cael eu penodi trwy broses gystadleuol o ran ymgeisio a chyfweld, yn falch o gynrychioli eu cyfoedion. Mae grwpiau arweinyddiaeth disgyblion wedi llwyddo i ddylanwadu ar arweinwyr i roi llawer o fentrau ar waith, fel creu ystafell les, a chyfle gwell i droi at staff lles arbenigol. Ymhellach, mae ardaloedd allanol fel yr 'ardd gudd' wedi cael eu datblygu i gefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth am ystod o elusennau ac achosion teilwng, neu godi arian ar eu cyfer. Er enghraifft, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi codi swm sylweddol o arian ar gyfer elusen genedlaethol cŵn tywys, apêl blychau esgidiau i gefnogi elusen ar gyfer digartrefedd, a gweithgareddau a digwyddiadau wedi'u trefnu i gefnogi elusennau plant. Mae arweinwyr disgyblion yn siarad yn hynod angerddol am godi ymwybyddiaeth am faterion cyfoes, diwylliannol neu foesol yn hytrach na dim ond 'codi arian'. Maent yn dangos cred yn frwd mai dylanwadu ar feddyliau pobl yw'r elfen fwyaf pwerus mewn newid cadarnhaol a pharhaol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddiried yn eu hathrawon ac yn teimlo bod rhywun ar gael i siarad â nhw bob amser os byddant yn poeni neu'n teimlo'n drist o gwbl.

Mae arweinwyr yn datblygu diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol. Ceir trefniadau cadarn ar gyfer cofnodi a dilyn trywydd pan fydd disgyblion yn absennol. Ceir system a ddeellir yn dda i adrodd am bryderon diogelu yn gysylltiedig â disgyblion. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r staff yn gwybod i bwy y dylent roi gwybod os bydd ganddynt bryderon am y pennaeth. Mae gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio mwy diogel trylwyr ac mae'n sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant diogelu yn ystod eu cyfnod ymsefydlu. Codwyd ychydig o faterion yn ymwneud â pholisïau gyda'r ysgol cyn yr arolygiad. Aethpwyd i'r afael â'r rhain yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth: cyfeiriad strategol a hunanwerthuso

Mae arweinwyr ar draws yr ysgol wedi ymrwymo'n glir i les a chyflawniad disgyblion. Ers ymuno ym mis Medi 2024, mae'r pennaeth wedi gwerthuso a myfyrio'n gyflym ar ystod eang o waith yr ysgol, ac mae ganddo farn onest am ei chryfderau a'i meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr ar bob lefel yn trafod y rhain yn agored, gan helpu meithrin diwylliant o atebolrwydd.

Er 2022, mae'r pwyllgor cynghori wedi gweithredu fel ffrind beirniadol ac wedi nodi meysydd i'w gwella yn gywir. Fodd bynnag, mae ei effaith ar welliant gwirioneddol yn yr ysgol wedi bod yn gyfyngedig yn hanesyddol. Cyflwynwyd pwyllgor cynghori newydd ym mis Medi 2024 i ddarparu goruchwyliaeth weithredol. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hymgorffori o hyd, ac ni welwyd eu heffaith eto.

Mae arweinwyr wedi gosod pedwar amcan gwelliant strategol ac wedi dechrau rhoi camau gweithredu cysylltiedig ar waith â brwdfrydedd. Er eu bod yn briodol, ar y cyfan, nid yw gwelliannau strategol bob amser yn alinio'n eglur ag anghenion mwyaf dybryd disgyblion. O ganlyniad, efallai na fydd dilyniannu a blaenoriaethu camau gweithredu yn gwneud y mwyaf o'r effaith ar ddeilliannau disgyblion yn y tymor byr i'r tymor canolig.

## Arweinyddiaeth: gweithredol

Mae arweinwyr yn rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer datblygiad a rheoli perfformiad staff. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth (UDA) yn arwain rhaglen datblygiad proffesiynol sy'n hyrwyddo deialog ynghylch addysgu a dysgu. Mae staff yn elwa ar hyfforddiant allanol mewn meysydd fel diogelu a newidiadau i'r cwricwlwm, tra bod gweithgorau ar draws cyfadrannau yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol fel darpariaeth SIY. Fodd bynnag, megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac nid yw ei effaith yn amlwg eto.

Mae rhaglen sicrhau ansawdd newydd yn helpu arweinwyr i feithrin dealltwriaeth gliriach o ansawdd addysg a gwneud penderfyniadau amserol, anodd, weithiau. Mae hyn yn adlewyrchu bwriad clir i godi safonau.

Mae systemau rhannu gwybodaeth effeithiol, fel proffiliau un dudalen a chofnodion cynnydd, yn helpu athrawon i ddeall anghenion disgyblion. Mae hyn yn hynod gryf yn yr ysgol baratoadol, lle mae staff yn defnyddio data bugeiliol a data cynnydd yn dda i lywio'u cynllunio, a'i addasu.

Mae arweinwyr hefyd wedi cyflwyno system i goladu data asesu. Er mai yn ddiweddar y mae'r system wedi cael ei sefydlu, mae'r prosesau dadansoddi a lledaenu yn drylwyr. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gyrhaeddiad disgyblion ar adegau adrodd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o asesu parhaus rhwng profion yn anghyson, a gallai hyn gyfyngu ar gynnydd disgyblion.

### Yr Ysgol Baratoadol (Paratoadol a Chyn-Baratoadol); addysgu, dysgu a phrofiad disgyblion

Mae staff addysgu'r ysgol baratoadol yn dîm hynod gydweithredol a chydlynus y mae diben clir ar y cyd yn sail i'w gwaith. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn, ac yn fedrus wrth ddiwallu eu hanghenion, gan addasu cynllunio ac adnoddau i ymateb i'w disgyblion a'u cynnydd. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac ar y cyd â chynllunio manwl a chydlynus yr athrawon, yn effeithiol wrth feithrin datblygiad graddol gwybodaeth a medrau.

Yn yr ysgol baratoadol, mae bron pob un o'r athrawon yn rheolwyr ymddygiad ystafell ddosbarth hynod effeithiol. Caiff eu gwersi eu nodweddu gan weithgareddau difyr a heriol; arferion sefydledig; a pherthnasoedd cadarn ac ymddiriedus. O ganlyniad, mae ystafelloedd dosbarth paratoadol yn amgylcheddau llawn egni a chroesawgar lle mae awyrgylch o ymdrech ac uchelgais yn bodoli.

Mae bron pob un o'r athrawon yn darparu modelau iaith ac ymddygiad hynod effeithiol ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, maent yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch.

Yn ystod eu hymarfer, mae athrawon paratoadol yn datblygu gwybodaeth fanwl am gyrhaeddiad a chynnydd disgyblion unigol yn gyflym. Yn ystod gwersi, mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio cyfuniad ystyriol o gwestiynau caeedig ac agored yn effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion ac annog meddwl ac annibyniaeth. Mae defnydd medrus athrawon o adborth ar lafar ac ysgrifenedig yn cyfleu yn glir i ddisgyblion fod canlyniadau eu holl ymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi, p'un a ydynt ar lafar, yn ysgrifenedig, yn greadigol neu'n gorfforol. Ymhellach, mae defnydd medrus o dargedau unigoledig yn meithrin diwylliant o welliant parhaus ac uchelgais, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella.

Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol baratoadol, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn briodol. Wrth ddarllen ar goedd, gall bron pob un o

ddisgyblion y dosbarth Derbyn ddefnyddio ffoneg i seinio geiriau ar goedd a defnyddio cyd-destun i adnabod geiriau printiedig anghyfarwydd. Maent yn cyfuno geiriau yn llwyddiannus mewn brawddegau byr maent yn eu darllen ar goedd. Mae bron pob un o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn defnyddio'u medrau darllen yn llwyddiannus i ddethol ffeithiau ac ystyr o ddeunyddiau printiedig, er enghraifft nodi gwahanol arferion a pharu'r rhain ag anifeiliaid. Gall bron pob un o'r disgyblion hŷn ddarllen yn rhugl i ddethol gwybodaeth i ymateb i gwestiynau, er enghraifft 'pam roedd Owain Glyndŵr yn enwog?' Wrth ddarllen ar goedd, mae llawer ohonynt yn darllen yn hyderus ac yn rhugl, gan addasu goslef a chyflymdra er mwyn ymateb i'r testun a'r gynulleidfa.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym â'u hysgrifennu dros eu cyfnod yn yr ysgol baratoadol. Mae bron pob un o'r disgyblion iau yn ysgrifennu'n gywir mewn brawddegau estynedig. Mae ychydig o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn ysgrifennu ag eglurder a rhuglder, gan ffurfio brawddegau clir ac ystyrlon sy'n cyfosod a chrynhoi gwybodaeth wedi'i dethol o ffynonellau. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu yn effeithiol i saernïo testunau estynedig clir a chywir.

Mae llawer o ddisgyblion paratoadol hŷn yn meddu ar fedrau llafaredd sgyrsiol hynod ddatblygedig. Maent yn gofyn am gymorth ac arweiniad pan fydd angen, gan ddefnyddio cwestiynau cwrtais, hyderus a chlir. Mae bron pob un o'r disgyblion paratoadol yn meddu ar fedrau llafaredd yn briodol i'w hoedran a'u cyfnod, ac ychydig ohonynt yn meddu ar fedrau datblygedig iawn, gan ddefnyddio'u geirfaoedd helaeth i gyfleu ystyr yn gywir ac yn glir. Mae llawer ohonynt yn hyderus wrth siarad â gwesteion, ac yn ateb cwestiynau mewn modd ystyriol a myfyriol.

Dros eu cyfnod yn yr ysgol baratoadol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym yn eu hannibyniaeth a'u medrau hunanreoli. Erbyn iddynt adael Blynyddoedd 2 a 3, mae bron pob un o'r disgyblion yn rheoli eu hunain, eu hoffer a'u mannau gweithio, yn hynod effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol baratoadol yn dangos agweddau hynod gadarnhaol at ddysgu, yn gwrando'n astud ar eu hathrawon, ac yn dangos brwdfrydedd am weithgareddau.

### Yr ysgol hŷn; addysgu, dysgu a phrofiad disgyblion

Mae llawer o athrawon yn yr ysgol hŷn yn meddu ar wybodaeth bwnc gadarn a dealltwriaeth drylwyr o ofynion byrddau arholi. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol cryf â disgyblion, y maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn disgwyl safonau uchel ar gyfer ymddygiad, a phan fydd tarfu ar lefel isel yn digwydd, mae athrawon yn defnyddio atgyfnerthu cadarnhaol yn effeithiol i ddychwelyd yn gyflym i awyrgylch dysgu ffafriol.

Mae arweinwyr cyfadrannau yn gweithio'n agos gydag athrawon i gynllunio gwersi sy'n cefnogi ac yn herio dysgu gan ddefnyddio dull hybrid offer traddodiadol a thechnegol. Er bod offer digidol yn cael eu hymgorffori'n gadarn ar draws pynciau, mewn ychydig o achosion, gall adnoddau sy'n rhy ragnodol arwain at ddiffyg hyblygrwydd. Mae hunanwerthuso arweinwyr wedi cydnabod hyn yn briodol ac mae camau ar y gweill i wella hyn.

Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, defnyddir ystod o weithgareddau ystafell ddosbarth sy'n symbylu ac yn cymell dysgu. Mae athrawon yn defnyddio gwybodaeth fanwl am gyrhaeddiad a chynnydd blaenorol disgyblion i lywio'u holi a'u rhyngweithio. Caiff disgyblion eu gwneud yn atebol trwy'r holi effeithiol hwn ac mae mwy o adborth llafar yn helpu disgyblion i wneud cynnydd â gweithgareddau. O ganlyniad, yn y gwersi hyn, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym ac unigoledig. Mewn ychydig o wersi, pan mae'r cymorth ar gyfer dysgu ar ei gryfaf, mae athrawon yn rhoi arweiniad clir a gweithredadwy i ddisgyblion. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau Saesneg, caiff disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) eu harwain yn unigol gyda nodiadau cymorth.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn addasu holi'n ddigon cyflym i ymateb i ddysgu'r disgyblion, gan arwain at gyflymdra a her annigonol. Ymhellach, mae lleiafrif o'r addysgu yn rhy gyfarwyddol ac nid yw'n addasu'n brydlon i ymateb i waith disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion y chweched dosbarth yn arddangos lefelau uchel o frwdfrydedd ac ymgysylltiad â'u dysgu. Dangosant awydd clir i lwyddo a datblygu eu dealltwriaeth. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos annibyniaeth gref, gan gymryd perchnogaeth o'u dysgu a rheoli eu hamser y tu allan i wersi yn effeithiol. Er enghraifft, mae llawer ohonynt yn gweithio'n hynod gynhyrchiol yn y llyfrgell dawel, bwrpasol, sy'n cynnwys adnoddau da, yn ystod eu hamser astudio preifat.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau llafaredd yn hynod effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn huawdl ac yn siarad yn hyderus â'i gilydd, eu hathro ac oedolion eraill. Nid ydynt yn ofni defnyddio geirfa gywir a thechnegol ac maent yn cymhwyso'u gwybodaeth flaenorol yn fedrus wrth ddatblygu eu syniadau a'u dealltwriaeth trwy drafodaeth, er enghraifft wrth drafod dylanwad ffeministiaeth a chyfalafiaeth ar farddoniaeth yr 20fed ganrif. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, caiff disgyblion eu rhwystro gan eu cyfraniadau llafar oherwydd anawsterau iaith.

Ar draws yr ysgol hŷn, mae disgyblion yn cydweithredu ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, ac yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac aelodau eraill o'r dosbarth. Mae gan lawer ohonynt farn glir, gallant ymestyn eu meddwl ac maent yn hyderus i werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Er enghraifft, mewn hanes a Saesneg, maent yn ystyried

ymatebion disgyblion eraill yn ofalus cyn herio a datblygu'r drafodaeth ymhellach yn barchus.

O roi'r cyfle iddynt neu o fewn cyfyngiadau cwestiynau arholiadau, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion yr ysgol hŷn ysgrifennu'n estynedig, ffurfio dadleuon clir a chrynhoi eu canfyddiadau'n glir. Mae llawer o ddisgyblion yn gallu bod yn greadigol yn eu meddwl, ond hefyd wrth gymhwyso enghreifftiau byd go iawn i'w gwaith. Er enghraifft, mewn cyfrifiadureg, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth o effaith deddfwriaeth diogelu data arnynt fel unigolion.

Pan fydd cyfleoedd yn bodoli, mae disgyblion yn cymhwyso medrau rhifiadol yn gywir. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, lluniodd disgyblion siartiau bar yn gywir o ddata a gasglwyd ar daith maes ddiweddar i ddangos ansawdd amgylcheddol gwahanol ardaloedd yn Salford Quay.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar fedrau digidol hynod ddatblygedig, y maent yn eu defnyddio'n effeithiol ar draws y cwricwlwm i gefnogi eu dysgu, a manteisio arno. Yng nghyfnod allweddol 3, yn benodol, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol mwy penodol, yn cynnwys codio ac animeiddio. Mae'r ystafell TG, a adnewyddwyd o'r newydd ym mis Ionawr, yn darparu meddalwedd arbenigol, gan ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgol hŷn yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda i wneud penderfyniadau am eu camau nesaf wrth iddynt symud trwy'r ysgol, er enghraifft wrth ddewis pynciau TGAU. Yn y chweched dosbarth, caiff disgyblion arweiniad unigol yn gysylltiedig ag opsiynau addysg uwch a llwybrau amgen.

## Cwricwlwm a chyfoethogi

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys. Yng nghyfnod allweddol 4 a 5, caiff disgyblion ystod addas o ddewisiadau, sy'n cefnogi eu gallu i ddysgu yn unol â'u diddordebau a'u llwybrau yn y dyfodol.

Ar draws yr ysgol, caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi trwy ystod helaeth o gyfleoedd cyd-gwricwlaidd a rhaglen addysg awyr agored yr ysgol, a adnabyddir fel 'dysgu trwy'r awyr agored'.

### Dysgu trwy'r awyr agored (LTTO)

Yn rhan o'r cwricwlwm ffurfiol, gan gynnwys fel diploma TGAU ac/neu Lefel 3 opsiynol, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cael diwrnodau dynodedig lle maent yn 'dysgu trwy'r awyr agored'. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau ar y safle yn yr ystafelloedd dosbarth awyr agored, lle mae disgyblion yn datblygu hyder, gwydnwch a medrau datblygedig ar gyfer byw yn y gwyllt. Caiff y medrau hyn eu herio yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle, fel cerdded ceunentydd a chaiacio, ac ar wersylloedd blynyddol lle mae disgyblion yn delio â sefyllfaoedd goroesi yn annibynnol.

Mae disgyblion yn dysgu rheoli risg yn gyfrifol fel mater o drefn, gan gynnwys wrth ddefnyddio cyllyll a pharatoi a rheoli tanau. Yn ystod y gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn dangos lefelau uchel o annibyniaeth, yn rheoli eu hoffer yn llwyddiannus ac yn cydweithio i ddatrys problemau bywyd go iawn. O ganlyniad i gael eu hamlygu i her mewn cyd-destunau dilys yn rheolaidd, mae disgyblion yn y coleg yn ymhyfrydu mewn cael her. Wedi iddynt ddychwelyd i'r dosbarth, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau mewn cyd-destunau eraill i gefnogi eu dysgu a'u twf personol.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Y modd yr eir i’r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Egluro ac ymgorffori dulliau cyson i werthuso cynnydd disgyblion yn barhaus

A2. Parhau i ddatblygu ac ymgorffori camau gweithredu a gynlluniwyd i wella ansawdd a chysondeb addysgu ar draws yr ysgol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori’r perchennog i ddiwygio’i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae’r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i’r argymhellion. Hefyd, byddai’n ddoeth dosbarthu’r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i’r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu'r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol (lle bo'n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/08/2025